

Gwybodaeth GDPR

Mae TPAS Cymru yn casglu data personol fel rhan o'r cynllun Symudiadau Clyfar ar gyfer y diben pwrpasol o ddilyn diddordebau cyfreithlon y cynllun. Trwy roi eich enw a'ch cyfeiriad e-bost, byddwn yn gallu eich diweddarau ar Symudiadau Clyfar trwy ein cylchlythyrau, ac anfon canllawiau dilynol atoch yn y dyfodol er mwyn eich helpu i gael y gorau o'ch amser mewn llety rhent. Dim ond at y dibenion hynny y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio ac ni fydd **byth** yn cael ei anfon at nac yn cael ei ddefnyddio gan unrhyw sefydliad arall oni bai am Symudiadau Clyfar, TPAS Cymru neu Gymdeithas Landlordiaid Preswyl Cymru. Bydd yr holl ddata'n cael ei gadw'n ddiogel ar system gyfrifiadurol gaeedig.

Bydd y wybodaeth a roddwch i ni yn cael ei chadw gyda'ch caniatâd, a gallwch ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg trwy e-bostio enquiries@tpas.cymru.

Eich hawliau:

- Yr hawl i gael eich hysbysu: rhaid i sefydliadau ddweud wrth unigolion pa ddata sy'n cael ei gasglu, sut mae'n cael ei ddefnyddio, pa mor hir y bydd yn cael ei gadw ac a fydd yn cael ei rannu ag unrhyw drydydd parti.
- Hawl mynediad: mae gan unigolion yr hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth y mae sefydliad yn ei chadw arnynt.
- Hawl i gywiro: mae gan unigolion yr hawl i gywiro data sy'n anghywir neu'n anghyflawn.
- Yr hawl i gael eich anghofio: mewn rhai amgylchiadau, gall unigolion ofyn i'r data y mae sefydliad yn ei ddal arnynt gael ei ddileu o'u cofnodion.
- Hawl i gludadwyedd: gall unigolion ofyn i'r sefydliad hwnnw drosglwyddo unrhyw ddata sydd ganddo ar gwmni arall.
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu: gall unigolion ofyn i sefydliad gyfyngu ar y ffordd y mae'n defnyddio data personol.
- Hawl i wrthwynebu: mae gan unigolion yr hawl i herio rhai mathau o brosesu, fel marchnata uniongyrchol.
- Yr hawl sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau awtomataidd gan gynnwys proffilio: mae unigolion yn rhydd i ofyn am adolygiad o brosesu awtomataidd os ydyn nhw'n credu nad yw'r rheolau yn cael eu dilyn.

